- gweithfeydd o fewn 10.0 medr i gwrs dŵr Prif Afon neu amddiffynfa rhag llifogydd (yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru). Efallai bod amrywiaethau lleol yn y pellter hwn, e.e. yn rhanbarth y Canolbarth Asiantaeth yr Amgylchedd, 8.0 medr ydyw. Cysylltwch â ni adeg cynllunio eich prosiect i gadarnhau hyn.

Y mae'r mathau o weithgareddau sydd â'r potensial i achosi llygredd mewn dŵr daear yn cynnwys:

- defnydd o sylweddau sydd â phosibiliad o lygru ger tyllau turio tynnu dŵr daear (o fewn Parthau Diogelu Tarddle yn Lloegr a Chymru, ac o fewn 50 medr yn yr Alban)
- defnydd o sylweddau sydd â photensial i lygru ger ffynhonnau a ffrydiau
- defnydd o sylweddau sydd â photensial i lygru mewn ardaloedd lle mae dŵr daear yn fregus, e.e. lefelau trwythiad dŵr daear uchel o dan haen denau o bridd
- adeiladu islaw'r lefel trwythiad gan ddefnyddio deunyddiau llygrol potensial (yn yr Alban)


Y mae'r mathau o weithgareddau a allai dynnu dŵr o rannau sensitif yr amgylchedd dŵr neu effeithio ar ddefnyddwyr dŵr eraill, yn cynnwys:

- dihybyddu cloddfeydd, yn arbennig tynnu symiau uchel o ddŵr daear

Dylech gysylltu â ni yn fuan iawn yn eich prosiect gan fod yr amserlen ar gyfer derbyn caniatâd neu awdurdodiad ar gyfer y gweithgareddau hyn yn gallu cymryd hyd at bedwar mis o'r dyddiad y derbynnir y cais. Ymwelwch â gwefan NetRegs – gweler y rhestr gwefannau – am wybodaeth am eich rhwymedigaethau amgylcheddol cyfreithiol: yn yr Alban, darllenwch hefyd gyfeiriadau 2 a 3.

1.2 Cynllunio

Gellir osgoi y mwyafrif o'r digwyddiadau o lygredd. Drwy gynllunio'n ofalus gallwch leihau y risg o'ch gwaith yn achosi llygredd. Nid yw'r mwyafrif o'r mesurau angenrheidiol ar gyfer atal llygredd yn costio fawr ddim, yn enwedig os ydynt yn cael eu cynnwys yn ystod cyfnod cynllunio unrhyw gynllun neu brosiect. Awgrymwn y fframwaith canlynol ar gyfer rheoli peryglon amgylcheddol ar eich safle: gall rhai o'r eitemau fod yn anghenion cyfreithiol.



* Rhai enghreifftiau o beryglon a sensitifeddau amgylcheddol sy'n safle-benodol:

- pibellau olew neu gemegol
- piblinellau prif gyflenwad dŵr
- ceblau foltedd uchel wedi'u llenwi â hylif
- echdynwyr i lawr yr afon
- ardaloedd amwynder uchel
- ffermydd pysgod
- cynefinoedd sensitif, e.e. gwlyptiroedd

** Gall asesiadau effaith amgylcheddol fod yn ofyn cyfreithiol ar gyfer eich prosiect fel rhan o'r broses gynllunio. Dylech gysylltu ag adran gynllunio eich Awdurdod Lleol am gyngor ar y rhan hon o'ch prosiect. Yn Lloegr gweler

y wefan Cymunedau a Llywodraeth Leol a chyfeiriad 4: yn yr Alban gweler cyfeiriad 5 neu ei ddiweddariad ac Atodiad 8 o gyfeiriad 4.

Mae cyfeiriad 8 yn trafod nifer o'r pwyntiau uchod yn fanwl.

Gallwch dderbyn gwybodaeth am sensitifrwydd dŵr wyneb lleol a dŵr daear gennym ni cyn dechrau unrhyw waith. Yn ychwanegol i arbed llygredd i ddŵr wyneb a dŵr daear dylech gymryd gofal i atal rhwystro sianelau a ffosydd, ac erydiad glan neu wely'r afon. Dylai'r wybodaeth yma ffurfio rhan o'r asesiad effaith amgylcheddol a'r cynllun rheoli safle.

1.3 Atal Llygredd

Os ydych yn achosi llygredd chi fydd yn gyfrifol am gost y glanhau. Gall hyn fod yn gostus, yn enwedig os yw dŵr daear wedi ei lygru. Gall fod costau ychwanegol yn gysylltiedig â'n hymateb i ddigwyddiad a/neu ddirwyon drwy'r llysoedd troseddol neu hawliadau sifil.

Bydd dilyn y canllawiau arfer da hyn yn eich cynorthwyo i ostwng y tebygolrwydd o ddigwyddiad. Os bydd un yn digwydd, cysylltwch â ni ar unwaith ar ein rhif llinell argyfwng 0800 80 70 60. Bydd ymateb cyflym i ddigwyddiad yn cynorthwyo i leihau yr effaith amgylcheddol a gallai ostwng y costau cyfan – gweler adran 8 a chyfeiriad 9.

Gall llygrwyr posibl o'ch math chi o weithfeydd gynnwys:


- llaid – adran 2
- sment a choncrid – adran 3
- cemegion a thoddyddion – adran 4
- rwbwl glanhau pontydd – adran 5
- chwynladdwyr – adran 6
- deunyddiau gwastraff (yn cynnwys gwastraff peryglus neu wastraff arbennig yn yr Alban) – adran 7

Mae ein dogefn ganllaw PPG6 yn rhychwantu safleoedd adeiladu a dymchwel – cyfeiriad 10. Hefyd, mae gan y wefan NetRegs – restr gwefannau – ganllawiau yn benodol ar gyfer y sector Adeiladu, ar reoliadau amgylcheddol ac arfer da. Dylech edrych ar y cyfeiriadau hyn i ganfod gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch prosiect chi.

2. Lloid

Mae llygredd llaid yn achosi llawer o ddigwyddiadau amgylcheddol. Gall ddifrodi a lladd bywyd dyfrol drwy fygu a thagu ac achosi llyfogydd gan rwystro ffosydd a sianelau.

2.1 Gweithgareddau sy'n gallu achosi llygredd llaid



Os gallwch arbed dŵr rhag cael ei halogi yn y lle cyntaf, yna mae'n lleihau'r risg o lygredd a'r gost cyfan o'ch mesurau rheoli. I osgoi llygriad llaid, dylech, ble bynnag sy'n bosibl, ddefnyddio dulliau o weithio sy'n lleihau neu'n dileu gweithio yn y sianel ac nad ydynt yn llygru dŵr wyneb.

2.1a Aflonyddiad i wely'r afon / gweithio yn sianel yr afon

Pan fyddwch wedi ystyried yr holl opsiynau eraill a bod gweithio yn y sianel yn parhau i fod yn anghenraid, fel y mae gweithrediadau treillio, cysylltwch â ni cyn gynted â phosib yn ystod eich cyfnod cynllunio i drafod mesurau rheoli llygredd addas. Gall caniatâd ar gyfer y math yma o waith gymryd hyd at 4 mis i'w dderbyn. Bydd y risg o lygredd llaid yn achosi digwyddiad yn dibynnu ar nifer o ffactorau, sy'n cynnwys:-

- tebygolrwydd o laid yn cael ei aflonyddu
- yr hyn sy'n ffurfio gwely'r afon, e.e. llaid neu raean
- yr amgylchiadau y mae'r gwaith yn cael ei gwblhau ynddynt, e.e. tywydd poeth a llifiadau isel

Gall llygredd llaid a achoswyd drwy weithio mewn dŵr arwyneb gael ei leihau neu ei atal, drwy gadw dŵr allan o'r ardal waith gan ddefnyddio technegau arwahanu addas, megis argaeau coffr a sianelau osgoi.

2.1b Gwarediad dŵr o gloddiadau, di-ddyfrío a phwmpio

Gellir lleihau neu osgoi problemau gwaredu dŵr o'r gweithgareddau uchod drwy:

- atal dŵr rhag mynd i mewn i gloddiadau, drwy ddefnyddio ffosydd ailgyfeirio
- ystyried yr effaith ar ddŵr daear os ydych yn defnyddio di-ddyfríad pwynt ffrydio neu waliau ailgyfeirio
- defnyddio sympiau pypiau mewn cloddiadau
- cynnal mewndyllau pibelli dŵr uwchben y gwely
- arllwysiad ar arwynebau caled (slabiau concriid/graeon) i mewn i ddyfroedd wyneb
- defnydd o raddfeydd pwmpio addas – er mwyn osgoi aflonyddu'r gwely neu'r lan, dylid gosod y raddfa uchaf wedi ystyried llif yr afon, lleoliad yr arllwysiad a'r risg o erydiad
- amddiffyniad mewndwll y pwmp er mwyn osgoi denu bywyd dyfrol i mewn a rwbel arall
- lleihau'r aflonyddiad i ferddwr

2.1c Daear a phentyrrau wedi'u dinoethi

Gall tynnu pridd a symud llystyfiant ar ddechrau'r prosiect gynyddu swm rhediad y dŵr ffo wyneb llygredig. Gall hefyd leihau'r ardal o dir dan llystyfiant sydd ar gael ar gyfer gwaredu dŵr lleidiog.

Dylech:

- leihau'r cyfanswm o dir a amlygir a phentyrrau pridd y mae'r dŵr yn draenio ohonynt a'r cyfnod o amser y mae'r fath ddŵr yn draenio – mae hyn hefyd yn ofyn cyfreithiol yn yr Alban) gweler Rheolau Gorfodol Cyffredinol yng nghyfeiriad 1)
- dylid tynnu llystyfiant o'r ardal sydd angen ei amlygu yn y dyfodol agos yn unig
- hau neu orchuddio pentyrrau
- defnyddiwch ffensys llaid ar waelod y llethr, a wnaed o geotecstilau i ostwng cludiant llaid
- casglwch ddŵr ffo mewn lagynau a gadewch i solidau mewn daliant waddodi cyn eu gwaredu – cyfeiriad 3

2.1d Gweithio ar y safle

Gall symudiad a chynhaliath peiriannau ar y safle gynhyrchu llaid a dŵr wedi'i halogi gan olew. Mae tarddiad llaid, megis golchi peiriannau ac olwynion a ffyrdd y safle a chroesfannau afon yn cario risg uchel o achosi llygredd.

Golchi peiriannau ac olwynion

Er mwyn lleihau y risg o lygredd, sicrhewch bod:

- golchi peiriannau ac olwynion yn cael ei wneud mewn ardaloedd penodedig o sylfaen galed ac o leiaf 10 medr oddi wrth unrhyw gwrs dŵr neu ddraen dŵr wyneb
- cesglir dŵr ffo mewn swmp – ailgylchwch ac ailddefnyddiwch y dŵr pan fo hynny'n bosibl
- symudir solidau sydd wedi gwaddodi yn rheolaidd
- gollyngiad o ddŵr wedi'i ddal yn mynd i garthffos fudr (os yn bosibl) gyda chaniatâd o flaen llaw gan eich darparwr carthffosiaeth lleol – adran 2.2e - neu
- yn cael ei gludo mewn tancer oddi ar y safle ar gyfer ei waredu mewn dull awdurdodedig – adran 2.2f

Ffyrdd y safle a chroesfannau afon

Gall dŵr ffo o ffyrdd y safle a chroesfannau afon gynnwys lefelau uchel o laid. Gostyngwch y risg o lygredd drwy:

- frwsio neu grafu ffyrdd er mwyn gostwng haenau o lwch a mwd
- rhoi argaeau bychain mewn ffosydd artiffisial wrth ymyl y ffordd i ddal llaid
- defnyddio'r pontydd parhaol presennol neu groesfannau pibellau ar gyfer croesfannau afon
- os yw'n angenrheidiol, adeiladu pontydd dros dro – ond nid rhydio afonydd
- gweithio o'r lan os yw'n bosibl – nid yn yr afon

2.2 Gwaredu dŵr llygredig – dulliau trin a gwaredu


Pan fo dŵr ffo wedi'i lygru â llaid neu lygrwyr eraill megis olew, ni ddylid pwmpio'r dŵr hwn neu ei alluogi i lifo'n uniongyrchol i ddyfroedd wyneb neu ddŵr daear heb driniaeth.

Os yw gollwng i ddŵr wyneb, dŵr daear, ffosydd cerrig neu garthffosydd dŵr wyneb yn angenrheidiol, efallai y bydd angen caniatâd neu awdurdodiad gennym ni. Cysylltwch â ni yn gynnar yn ystod cyfnod cynllunio eich prosiect gan fod caniatâd neu awdurdodiad yn gallu cymryd hyd at 4 mis i'w gyhoeddi. Os ydym yn cyhoeddi caniatâd neu awdurdodiad, bydd yn cyfyngu ar gyfaint, cyfanswm o laid a phresenoldeb unrhyw olew yn y gollyngiad, a gall fod ag amodau ar gyfer sylweddau ychwanegol.

Bydd y dull dewisol ar gyfer trin a gwaredu dŵr llygredig yn dibynnu ar:

- y cyfaint o ddŵr
- yr ardal o dir sydd ar gael ar gyfer storio, trin neu arllwys
- y cyfanswm a'r math o laid
- presenoldeb sylweddau eraill yn y dŵr
- amodau unrhyw ganiatâd neu awdurdodiad

Mae dulliau trin a gwaredu yn cynnwys:



2.2a Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS)

Draenio cynaliadwy yw'r arferiad o reoli dŵr ffo wyneb mor agos i'w darddiad â phosibl drwy arafu llifiadau, caniatáu i waddodiad digonol a gweithredu biolegol i ddigwydd cyn gollwng dŵr i gwrs dŵr neu i ddaear. Mae'n defnyddio dulliau peiriannu meddalach i efelychu draenio naturiol yn hytrach na dulliau draenio pibellog traddodiadol. Bydd y dulliau draenio cynaliadwy a ddefnyddir yn ystod y cyfnod adeiladu ac yn ystod cyfnod cynllunio'r prosiect, ill dau yn:

- lleihau y risg o orlif o ganlyniad i ddatblygiad o fewn dalgylch afon
- lleihau llygredd gwasgaredig sy'n deillio o ddŵr ffo wyneb
- lleihau y risg o lygru dŵr daear
- lleihau y difrod amgylcheddol, megis erydiad glannau a difrod i gynefinoedd
- cynnal neu adfer trefn llif naturiol y cwrs dŵr sy'n derbyn
- cynnal adlenwad i ddŵr daear
- cyflawni gwelliannau amgylcheddol, gwelliannau i gynefinoedd bywyd gwylt, amwynder a safon y tirwedd

Dangosir rhai enghreifftiau o ddulliau rheoli tarddle yn y rhestr ganlynol:

Enghreifftiau o systemau draenio cynaliadwy rheoli tarddle

Palmentydd ag arwyneb mandyllog – y mae dŵr yn treiddio i'r pridd neu'r isarwyneb, sydd wedyn yn gallu arllwys yn araf yn hytrach nag rhedeg i ffwrdd yn unionsyth. Bydd hyn yn lleihau'r cyfaint o ddŵr efallai y byddwch ei angen ei drin a hefyd yn gallu ail-lenwi dŵr daear. Y mae palmentydd mandyllog angen eu gwarchod, tra'n eu gosod, rhag llenwi â gormod ddŵr wedi'i lygru gan laid.

Ffosydd treiddiad – ffos ddofn a gloddiwyd wedi'i ôl-lenwi â cherrig i greu cronfa danddaearol. Dargyfeirir y dŵr ffo i mewn i'r ffos ac yna mae'n hidlo i mewn i'r isbridd. Po agosaf ydyw i'r tarddle, po fwyaf effeithiol fydd y dull hwn.

Basnau treiddiad – croniad wyneb bas lle caiff dŵr ei storio hyd nes ei fod yn treiddio yn raddol i mewn i bridd llawr y basn. Mae perfformiad y basn yn dibynnu llawer ar hydreddedd y pridd a dyfnder y lefel trwythiad.

Draeniau hidlo neu ddraeniau Ffrengig – mae'r rhain yn debyg i'r ffosydd treiddiad ond maent hefyd yn galluogi symudiad araf dŵr ffo tuag at y cwrs dŵr gan ganiatáu amser ar gyfer hidlo, storio ac ychydig o golled o ddŵr o ganlyniad i anweddiad / treiddiad.

Pantiau – glaswelltog llydan a bas sy'n arwain dŵr tros dir arwyneb sydd wedi'i ddraenio i mewn i system storio neu ollwng. Maent yn cynnig storfa dros dro ar gyfer dŵr ffo sy'n gostwng llifiadau uchel. Cedwir solidau a thorrir gweddillion olewog a sylweddau organig i lawr yn haen uchaf y pridd a llystyfiant.

Stribedi hidlo – lleiniau o dir dan llystyfiant wedi'u cynllunio i dderbyn dŵr ffo fel llenlif dros dir. I fod yn effeithiol dylent fod yn 5 – 15 metr o led ac maent yn gweithio orau ar ochr uchaf afon mewn system ddraenio. Maent fwyaf effeithiol yn tynnu solidau a llygrwyr gormodol cyn gollwng i system i lawr yr afon.

Gellir ystyried SUDS eraill yn cynnwys, pyllau, basnau cadw (pyllau sych) a gwlyptiroedd.

Yng nghyfnod cynllunio eich prosiect ystyriwch sut y gellir rheoli eich draeniad gan ddefnyddio SUDS. Cyflawnir y gwaith o dynnu llygredd drwy'r dulliau hyn drwy waddodi, arsugno, amsugno, hidlo a gweithrediad microbig.

Yn yr Alban mae'n ofynnol i drin arllwysyadau o ddŵr ffo o safleoedd adeiladu, un ai gan System Ddraenio Trefol Cynaliadwy (SUDS) neu system gyfwerth sydd â chyfarpar i osgoi llygredd. Fodd bynnag, ni all y System SUD terfynol fod yn un cyfwerth a rhaid iddo fod yn System SUD cydnabyddedig (gweler Rheol Gorfodol Cyffredinol 10 yng ngyfeiriad 1).

Am fanylion pellach am SUDS gweler wefan CIRIA yn y rhestr gwefannau a chyfeiriadau 6 a 7.

2.2b Lagynau gwaddodi neu danciau

I fod yn effeithiol, dylai lagŵn gwaddodi neu danc gadw dŵr llygredig yn ddigon hir er mwyn i laid waddodi. Bydd hyd yr amser yn dibynnu ar y math o laid, gyda solidau clai mwy mân yn cymryd mwy o amser i waddodi. Os ydych yn defnyddio clystyryddion i gynorthwyo gwaddodi mae'n rhaid i chi drafod yr opsiwn hwn â ni cyn eu defnyddio. Gall clystyryddion eu hunain fod yn llygrol ac/neu'n wenwynig ac angen defnydd gofalus a monitro i fod yn effeithiol. Mae'r rhestr wirio isod yn cynnig canllawiau ar weithredu lagŵn/tanc.

Mae tabl 1 yn rhoi arweiniad ar gyfaint y lagŵn neu danc sydd ei angen ar gyfer gwaddodiad teirawr ar raddfa ddiffiniedig o arllwysiad mewndwll.

Hyd a lled nodweddiadol lagŵn / tanc gwaddodi am amser gwaddodi o deirawr			
Diamedr Pwmp	Graddfa arllwysiad i mewn i'r lagŵn	Hyd	Lled
Pwmp 6 modfedd	3000 l/min	60m	20m
	6000 l/min	80m	27m
Pwmp 4 modfedd	1000 l/min	30m	10m
	2500 l/min	50m	17m

Gan dybio bod dyfnder y tanc / lagŵn yn 1 m, lle bo hyd = tair gwaith y lled

Tabl 1: Mesuriadau pwll gwaddodi – penderfynir maint y tanc / lagŵn gan y raddfa cyflwyno'r dŵr.

Lagŵn / tanc gwaddodi – rhestr wirio
<ul style="list-style-type: none">• cynhaliwch raddfa mewndwll pwmpiedig parhaol• lleihewch y llif mewndwll cymaint â phosibl drwy ddefnyddio gwasgarwr ynni neu riprapio• gosodwch waith pibellau mewndwll yn unionsyth i wasgaru ynni• darparwch siambr mewndwll wedi'i leinio i arafu cyflymder y llif• leiniwch y siambr mewndwll a'r cored allfa gyda deunyddiau megis geotecstilau, gwaith bric, polythen neu goed• dylid cael cored allfa i leihau aflonyddwch• bydd dau neu dri lagŵn mewn cyfres yn cynyddu'r llaid a gedwir• glanhewch y siambr mewndwll yn rheolaidd• monitrwch safon yr arllwysiad yn gyson

Gweler cyfeiriad 8 am fanylion pellach.

2.2c Hidlo

Os nad oes gennych le ar gyfer lagynau a bod y dŵr wedi'i lygru gan laid cwrs, efallai y gallwch ddefnyddio tanciau wedi'u llenwi â deunydd hidlo. Gellir defnyddio agregau un maint 5-10mm, geotecstilau neu fynau gwellt fel hidlwr. Rhaid i chi fonitro graddfa'r pwmp mewndwll a safon yr arllwysiad yn ofalus.

2.2d Pwmpio i laswelltir

Rhaid i chi gael ein caniatâd ninnau a pherchennog y tir cyn cynllunio i ddefnyddio y dull hwn o waredu. Rhaid i'r raddfa arllwys gyd-fynd â graddfa'r ymdreiddiad yn y pridd a fydd yn amrywio gyda'r mathau o bridd, maint y gorchudd llystyfiant a'r graddiant.

2.2e Arllwysiad i garthffos

Os yw arllwysiad i garthffos fudr yn bosibl byddwch angen caniatâd gan y darparwr carthffosiaeth lleol. Dylech gysylltu â nhw yn gynnar yn ystod y prosiect. Efallai y byddant yn cyhoeddi caniatâd/awdurdodiad yn cyfyngu ar gyfaint a chynnwys yr arllwysiad.

2.2f Tancer oddi ar y safle

Os nad oes unrhyw ffordd arall o waredu yn bosibl yna gellir casglu a gwaredu dŵr llygredig oddi ar y safle gan dancer. Gall hwn fod yn opsiwn costus a rhaid ei drafod â ni yng nghyfnod cynllunio eich prosiect.

3. Concrid a sment

Mae concreid a sment ffres yn alcalinaidd a chyrydol iawn ac yn gallu achosi llygredd difrifol. Dylai ardaloedd cymysgu concreid a sment ac ardaloedd golchi:

- gael eu lleoli 10 metr oddi wrth unrhyw gwrs dŵr neu ddraen dŵr wyneb i leihau'r risg o ddŵr ffo yn mynd i mewn i'r cwrs dŵr
- cael systemau gwaddodi ac ailgylchu ar gyfer aildefnyddio dŵr, i leihau'r risg o lygredd a gostwng y defnydd o ddŵr
- cael ardal gynhwysol ar gyfer golchi a glanhau peiriannau sypynnu concreid neu lorïau cymysgedd parod: gweler adran 2.1d uchod
- casglwch ddŵr golchi a, lle bo'n berthnasol, gollyngwch ef i'r garthffos fudr (rhaid i chi gael caniatâd gan yr ymgwymerwr carthffosiaeth lleol ar gyfer hyn), neu cadwch ddŵr golchi ar gyfer ei waredu mewn dull a awdurdodwyd oddi ar y safle.

Ni ddylid byth rhyddhau dŵr golchi o weithfeydd concreid a sment i'r amgylchedd ddŵr.

4. Olew a chemegolion

Yn Lloegr, mae'n rhaid i gynwysyddion storio olew (e.e. tanciau, IBCau, drymiau a bowseri symudol) sy'n fwy na 200 litr gydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Lloegr) 2001 – cyfeiriad 11. Disgwylir deddfwriaeth debyg yng Ngogledd Iwerddon.

Yn yr Alban, rhai i storio gydymffurfio â Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Storio Olew) (Yr Alban) 2006 – cyfeiriad 12-; mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i storio unrhyw gyfaint o unrhyw fath o olew, gyda mwy o ofynion cyfarwyddol yn berthnasol i safleoedd diwydiannol, masnachol a sefydliadol sy'n storio dros 200 litr o olew.

4.1 Storio - Cyffredinol

Sicrhewch fod y storfa tanwydd, olew a chemegolion ar y safle yn ddiogel. Lleolwch y storfa ar sylfaen anhydraidd oddi mewn i system gyfyngiant eilaidd megis bwnd. Dylai gwaelod a walïau'r bwnd fod yn anhydraidd i'r deunydd a storir ac yn gallu dal o leiaf 110% o'r cyfaint a storir. Lleolwch yr ardal storio uwchben unrhyw lefel llifddŵr, a lle bo'n bosibl, i ffwrdd o unrhyw leoliadau risg uchel (megis o fewn 10 metr o gwrs dŵr neu 50 metr o ffynnon, twll turio neu ffrwd), i leihau'r risg o golled yn mynd i'r amgylchedd ddŵr. Gellir canfod canllawiau manwl parthed tanciau storio olew uwchben y ddaear yn ein canllaw PPG2 – cyfeiriad 13 – ac yn PPG 26 – cyfeiriad 14.

Cadwch git colledion gyda thywod, pridd neu gynhyrchion masnachol sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer y deunyddiau byddwch yn eu storio, yn agos at eich ardal storio. Hyfforddwch y staff ar sut i ddefnyddio'r rhain yn gywir.

Symudwch ddrymiau wedi'u difrodi, rhai sy'n gollwng neu rai gwag o'r safle ar unwaith a gwaredwch unrhyw ddrwm drwy gontractwr gwaredu gwastraff cofrestredig.

4.2 Diogelwch

Dylech ddiogelu eich safle rhag lladrad neu fandaliaeth. Dengys ystadegau bod difrod gan fandaliaeth yn achos cyffredin o lygredd. Ni allwch ddefnyddio fandaliaeth fel amddiffyniad os eir â chi i'r llys oherwydd digwyddiad o lygredd.

Felly, gweithredwch i amddiffyn eich safle drwy

- osod falfiau cloadwy a gynnu clicied ar bibellau o gynwysyddion storio
- gosod falfiau gwrth-seiffo mewn pibellau rhwng cynwysyddion a phympiau
- gosod arfbibau
- storio tanciau, drymiau a bowseri symudol mewn cynwysyddion neu gyrtiau wedi'u cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
- ystyried systemau goleuo, larwm neu CCTV ar gyfer eich safle neu gwr
- gosod ffensys cloadwy o amgylch y safle neu gyflogi staff diogelwch

4.3 Ail-lenwi â thanwydd

Mae'r risg o ollwng tanwydd ar ei waethaf yn ystod ail-lenwi peiriannau. I leihau'r risg yma:-

- ail-lenwch beiriannau symudol mewn ardal ddynodedig, ar safle anhydraidd i ffwrdd oddi wrth ddraeniau neu gyrsiau dŵr
- defnyddiwch fowser mewn bwnd
- arolygwch pob ail-lenwad a swmp-gyflenwadau
- gwiriwch y gofod rhydd sydd yn y tanc cyn ei ail-lenwi
- peidiwch â jamio falf cyflenwi ar agor
- aseswch bibellau a falfiau yn rheolaidd am arwyddion o wisgiad
- trowch falfiau i ffwrdd wedi ail-lenwi a chlowch nhw pan na ddefnyddir hwy
- gosodwch hambyrddau diferu o dan bympiau i ddal colledion bach
- cadwch git colledion gyda thywod, pridd a deunyddiau masnachol ar gyfer dal colledion
- darparwch hyfforddiant ar sut i ymateb i ddigwyddiad i'ch staff a chontractwyr

4.4 Olew pydradwy

Os yw'n bosibl defnyddiwch iraid pydradwy bar cadwyn llif gadwyn ac olew hydrologig pydradwy mewn peiriannau pan yn gweithio mewn neu wrth ymyl cyrsiau dŵr. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a'i chontractwyr yn defnyddio olew pydradwy ar gyfer eu gweithrediadau eu hunain. Mae olewau pydradwy yn llai gwenwynig na'r rhan fwyaf o fathau o olew synthetig ond dylid ei storio a'i ddefnyddio i'r un safonau ag olewau eraill.

4.5 Deunyddiau masnachol

Gall seliau, caenau, gludiadau a gwydriadau fod yn wenwynig i blanhigion ac anifeiliaid os cânt eu rhyddhau i'r amgylchedd. Dewiswch, storiwch a defnyddiwch y deunyddiau hyn yn ofalus er mwyn arbed adnoddau ac gwarchod yr amgylchedd. Ni ddylech ddefnyddio cyfansoddion selio a gwydro sy'n cynnwys asbestos. Dylech

- ddefnyddio cynnyrch sy'n seiliedig ar ddŵr neu doddydd isel
- osgoi cynnyrch sy'n cynnwys plwm fel cyfrwng sychu a'r rheiny sy'n cynnwys toddyddion peryglus (tolwen neu hydrocarbonau clorinedig)
- darparu storfa sicr a diogel

Am gyfarwyddyd yngylch storio yn gyffredinol, gweler ein pecyn a DVD 'Mae'n Talu i Atal Llygredd. Rhoi Trefn ar eich Safle' – cyfeiriad 15.

5. Cynnal a chadw pontydd ac adeiladweithiau dros ddŵr

Mae gan waith cynnal pontydd neu adeiladweithiau eraill dros neu wrth ymyl gyrsiau dŵr risg uchel o achosi llygredd. Efallai y bydd angen awdurdodiad oddi wrthym ni ar gyfer y gwaith cynnal ei hun ac felly dylech gysylltu â ni yn fuan yn ystod y cyfnod cynllunio i gytuno ar y dull mwyaf addas o weithio ac i gytuno ar gynllun rheoli amgylchedol.

Efallai y bydd angen awdurdodiad arnoch os yw'r bont yn croesi prif afon. Cysylltwch â ni cyn dechrau ar eich gwaith i gadarnhau hyn.

5.1 Cyfyngu ar lygrwyr

Lluch, rwbol a dŵr gwastraff yw'r llygrwyr mwyaf cyffredin a gynhyrchir gan gynnal a chadw adeiladweithiau. Dylech ddewis system gyfyngiant sydd wedi ei chynllunio i ostwng y risg o lygredd o'ch gwaith. Dylai'r system ystyried sensitifrwydd yr amgylchedd. Bydd y math o gyfyngiant y byddwch ei angen yn dibynnu ar sensitifrwydd y safle.

Mae dulliau o gyfyngiant yn cynnwys:

- waliau sy'n anhydraidd i aer neu ddŵr
- fframwaith anhyblyg neu hyblyg wedi'i leinio fel bo'r angen
- asiadau seliedig llawn
- mynedfeydd aerglo neu ailseliadwy
- pwysedd aer negyddol (o ganlyniad i lif aer naturiol neu orfodol) a
- hidlo nwyon llosg

Mewn ardaloedd cyfyngedig seliedig dylech ddarparu awyriant wedi'i hidlo i atal casgliad o lwch a lleihau'r posibilrwydd o aer yn dianc trwy fylchau yn y cyfyngiant.

Defnyddiwch lanhau corfforol yn hytrach na chemegolion hylifol megis sylweddau costig ac asid. Cynhwyswch ddŵr gwastraff o olchiadau wyneb a chytunwch y dull gwaredu â ni fel rhan o'r cynllun rheoli amgylcheddol cyn i chi dechrau ar y gwaith. Mewn rhai achosion, efallai y gallech ddefnyddio cwch camlas gyda chyfleuster cyfyngiant dŵr gwastraff i weithio dros ddŵr, neu waredu i garthffos fudr gyda chaniatâd blaenorol gan yr ymgymwrwr carthffosiaeth lleol. Dylech gysylltu â ni yn gynnar yng nghyfnod cynllunio'r prosiect fel y gallwn gynghori ynglŷn â dulliau atal llygredd.

Rhaid cynllunio'r cyfleuster cyfyngiant fel nad yw'r adeiladwaith yn atal llif yr afon oddi tano, i'r fath radday fel ei fod, yn cynyddu'r risg o lifogydd i lefel annerbyniol.

5.2 Tynnu paent

Mae dulliau o dynnu paent yn cynnwys:-

- glanhau â chwythiadau sgraffiniol
- chwythu mewn cylchdro caeëdig
- paratoad gan amrywiol fathau o chwythu sgraffiniol gwlyb neu chwistrelliad dŵr
- stripio cemegol a
- glanhau â theclyn llaw neu declyn pŵer

Chwythu sgraffiniol sy'n cynhyrchu'r lefel uchaf o lwch a malurion. Gall defnyddio atodolion sugno ar declynnau pŵer ostwng cynhyrchiad llwch. Mae dulliau glanhau â dŵr yn cynhyrchu llai o falurion, ond yn cynhyrchu dŵr ffo, sydd angen ei gyfyngu a'i drin. Gallwn eich cynghori ynglŷn â'r dull gorau o drin.

Dylid samplu caenau cyfredol am ddeunyddiau peryglus (e.e. plwm) cyn dechrau eu tynnu. Gall hyn helpu i benderfynu lefel y cyfyngiant y byddwch ei angen. Bydd lefel y cyfyngiant sydd ei angen yn dibynnu ar:

- y cyfanswm o baent sydd angen ei dynnu
- y math a chrynhoad o ddeunyddiau peryglus
- sensitifrwydd yr amgylchedd amgylchynol

5.3 Glanhau wynebaw

Os ydych yn defnyddio dŵr pwysedd uchel neu lanhawyr ager, gweler ein canllaw yn PPG13 – cyfeiriad 16 – cyn dechrau'r gwaith. Dylech osgoi defnyddio chwythellu graean â graean slag-ddeilliedig, gan y gallant gynnwys lefelau sylweddol o fetelau trwm, megis copr. Gall y rhain fod yn wenwynig os ânt i mewn i'r amgylchedd dŵr. Gostyngwch y potensial o lygriad drwy ddefnyddio garned, silica sgraffiniol isel neu gyfrwng gwydr wedi'i ailgylchu gydag atodolion ymsugno.

5.4 Paentio

Mae ein cyngor parthed paentio yr un fath â'r cyngor am dynnu paent, er y bydd cyfaint y gwastraff a maint y gweithrediadau yn llai. Symudwch lwch a malurion drwy ysgubo neu lanhau ag ymsugnydd cyn paentio. Gellir gosod y paent ar y safle gan ddefnyddio brwsh, chwistrellydd confensiynol neu chwistrellydd di-aer. Ystyriwch ddefnyddio unedau chwistrellu electrostatig i leihau'r swm a gollir drwy or-chwistrellu.

Ystyriwch yn ddwys pa baent i'w ddefnyddio. Er bod gan baent sy'n seiliedig ar ddŵr ac sy'n rhydd o doddydd effaith amgylcheddol is, efallai y bydd angen eu taenu yn fwy aml. Gall paent sail-doddydd gael effaith amgylcheddol uwch ond byddant yn para yn hwy ac angen llai o waith cynnal a chadw. Dylid seilio'r penderfyniad o ddefnyddio paent seiliedig ar ddŵr neu ar doddydd ar sensitifrwydd amgylcheddol yr ardal/amgylchedd amgylchynol a rhyddineb mynediad i'r adeiladwaith.

6. Defnydd o Chwynladdwr

Yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru rhaid i chi gael ein caniatâd ysgrifenedig i ddefnyddio chwynladdwyr o fewn neu yn agos at ddŵr. Mae hyn yn cymryd pythefnos o'r dyddiad y derbynnir y cais. Dim ond chwynladdwyr cymeradwy a ellir eu defnyddio, ac yn unig gan gontractwyr awdurdodedig. Os y rhoir caniatâd, chi, fel yr ymgeisydd, a'r contractwr sy'n gyfrifol am sicrhau nad effeithir yn wael ar fuddion defnyddwyr eraill yr afon.

Yn yr Alban, y mae taenu chwynladdwyr o'r awyr o fewn neu wrth ymyl amgylchedd dŵr angen caniatâd gennym ni; hefyd, dylech ymgynghori â ni ar daenu chwynladdwyr eraill o fewn neu wrth ymyl yr amgylchedd dŵr, oherwydd y mae llygredd a achoswyd gan y fath ddefnydd o chwynladdwyr yn cael ei gyfrif fel gweithgaredd diawdurdod a gellir gweithredu er gorfodi y person sy'n gyfrifol.

7. Rheoli gwastraff

Mae storio a gwaredu gwastraff yn gyfreithlon yn hanfodol ar gyfer atal llygredd yn effeithiol.

O dan y Dyletswydd o Ofal – cyfeiriad 17 – mae gennych ddyletswydd cyfreithiol i sicrhau nad yw unrhyw wastraff yr ydych yn ei gynhyrchu yn dianc o'ch rheolaeth. Rhaid trosglwyddo gwastraff i gludwr awdurdodedig cofrestredig neu gludwr gwastraff eithriedig neu reolwr gwastraff. Rhaid iddo gael disgrifiad o'r gwastraff a nodyn trosglwyddo gwastraff i gyd-fynd ag ef a'i waredu yn gyfreithiol.

Mae gan wastraff peryglus, neu wastraff arbennig yn yr Alban, megis gwastraff olewog, asidau, toddyddion a chynhyrchion wedi'u seilio ar doddydd, ofynion cyfreithiol penodol iddynt a rhaid i'w symudiadau gael nodyn anfon i gyd-fynd ag ef – cyfeiriad 18. Rhaid i bawb sydd yn ymwneud â throsglwyddo'r gwastraff, gan ein cynnwys ni, gadw copïau o'r nodiadau anfon fel prawf iddo gael ei waredu'n gyfreithiol.

Os ydych yn gynhyrchwr gwastraff peryglus wedi'i leoli yn Lloegr neu yng Nghymru, mae'n rhaid i chi gofrestru gydag Asiantaeth yr Amgylchedd fel Cynhyrchwr Gwastraff Peryglus. Am fanylion pellach cysylltwch â ni ar 08708 502 858 neu ymwelwch â'n gwefan. Nid oes y fath ofyn yng Ngogledd Iwerddon na'r Alban.

Canfyddwch sut y mae'r rheoliadau hyn yn effeithio ar eich safle chi. Edrychwch ar yr adran Arweiniad yn ôl Pwnc Amgylcheddol o wefan NetRegs (yn y rhestr gwefannau) am fanylion ar ddeddfwriaeth wastraff a sut i gydymffurfio â hi. Yn yr Alban gweler hefyd gyfeiriad 19.

Lluniwch gynllun rheoli gwastraff safle.

Rhestr wirio cynllun rheoli gwastraff safle

- Gwnewch archwiliad lleihau gwastraff i adnabod lle y gallwch leihau y cyfaint o wastraff yr ydych yn ei gynhyrchu – cysylltwch ag Envirowise am gyngor am ddim, ar 0800 585794 neu defnyddiwch eu gwefan (gweler y rhestr gwefannau isod)
- Ailddefnyddiwch ddeunyddiau neu defnyddiwch gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio sawl gwaith
- Newidiwch ddeunyddiau am rai sy'n llai peryglus – e.e. ireidiau pydradwy a phaent sy'n seiliedig ar ddŵr
- Ailgylchwch wastraff pan fo'n bosibl – Yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru cysylltwch â'ch cyngor lleol neu gontractwr gwastraff am gyfleusterau ailgylchu. Yn yr Alban, yn gyntaf oll, edrychwch ar wefan Ymwybyddiaeth Gwastraff (www.wasteawarebusiness.com) i nodi'r cyfleusterau ailgylchu yn eich ardal. Cysylltwch hefyd â'ch cyngor lleol, contractwr gwastraff, neu Raglen Symbiosis Diwydiannol Yr Alban (www.nisp.org.uk/)
- Gwahanwch wahanol wastraffau i'w hailgylchu, gwastraff peryglus a gwastraff cyffredinol a'u labelu. Peidiwch â chymysgu neu wanhau gwastraff peryglus
- Storiwch wastraff mewn cynwysyddion addas o faint digonol i osgoi colled, gorlif neu ollyngiad
- Storiwch wastraff mewn ardaloedd dynodedig, wedi'u hynysu'n gyfan gwbl oddi wrth ddraeniau dŵr wyneb ac ardaloedd sy'n gollwng yn uniongyrchol i'r amgylchedd dŵr
- Gorchuddiwch neu gau sgiopiau oni bai eu bod yn cael eu storio o dan do neu o fewn adeilad.
- Cludwch wastraff oddi ar eich safle yn rheolaidd; peidiwch â gadael i symiau mawrion grynhoi.

8. Ymateb i Ddigwyddiad

Dylech adrodd wrthym yn syth am unrhyw ddigwyddiadau sydd wedi neu a allai fod wedi cael effaith amgylcheddol. Defnyddiwch ein rhif 0800 80 70 60 i adrodd am bob digwyddiad.

Mae digwyddiadau yn cynnwys colledion (olew a chemegion), dŵr ffo llygredig, llifogydd, aflonyddiad gwely'r afon, difrod i wasanaethau tanddaearol, difrod i gynefinoedd, dulliau gwael o waredu a storio sbwriel. Os mewn penbleth, cysylltwch.

Dylech gynhyrchu Cynllun Ymateb i Ddigwyddiad fel rhan o reolaeth effaith amgylcheddol eich gwaith. Dylid cynnwys y canlynol:-

- rhestr o gysylltiadau allweddol mewnol ac allanol
- gweithdrefnau adrodd
- cynllun safle yn cynnwys draeniad a lleoliad ardaloedd storio/ail-lenwi
- rhestr o ddeunyddiau a gaiff eu storio
- manylion am faterion amgylcheddol lleol sy'n sensitif, e.e. echdynwyr dŵr, ardaloedd amwynder uchel a ffermydd pysgod
- lleoliad offer colledion
- gweithdrefnau ar gyfer dal colledion ac adfer y sefyllfa

Hyfforddych eich staff a'ch contractwyr i ddefnyddio offer colledion a sut i reoli a gwaredu'r deunyddiau gwastraff yn gyfreithlon.

Os ydych yn defnyddio olew a chemegolion mewn dalgylch agos at gwrs dŵr, storiwch git colledion addas neu ddeunyddiau amsugol gerllaw. Darparwch storfa dros dro addas ar gyfer unrhyw olew a chemegolion. Daliwch pob colled gan ddefnyddio amsugnyddion, megis tywod, pridd neu bwmau neu badiâu sydd ar gael yn fasnachol a rhowch wybod i ni ar unwaith, gan ddefnyddio'r rhif argyfwng uchod.

Am arweiniad llawn ar gynllunio Ymateb i Ddigwyddiad defnyddiwch ein PPG21 – cyfeiriad 9.

9. Cyfeiriadau

Mae holl nodiadau y Canllaw Atal Llygredd (CAL) ar gael yn:

- www.environment-agency.gov.uk/ppg
- www.sepa.org.uk/guidance/ppg

Gallwch hefyd archebu y pecyn 'Mae'n Talu i Atal Llygredd' yn y safle cyntaf o'r rhain.

1. Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Gweithgareddau Rheoledig) (Yr Alban) 2005 – Canllaw Ymarferol. SEPA 2007 – yng ngwefan SEPA ac mewn fersiwn print sydd ar gael gan SEPA.
2. Atal Llygredd o Gontractau Peirianeg Sifil; Gofynion Arbennig (SG31). SEPA 2006 – yng ngwefan SEPA.
3. Atal Llygredd o Ganllawiau Contractau Peirianeg Sifil am Ofynion Arbennig (SG-32). SEPA 2006.
4. Asesiad Effaith Amgylcheddol: Canllaw i'r Gweithdrefnau. Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. ISBN 0 72 772960 8
5. Rheoliadau Asesiad Effaith Amgylcheddol (Yr Alban) 1999, Cylchlythyr 15/1999 – yng ngwefan Llywodraeth yr Alban.
6. Llawlyfr SUDS. CIRIA C697. ISBN 0 86017 697 5
7. Llawlyfr Safle ar gyfer Adeiladu SUDS. CIRIA C698. ISBN 0 86017 698 3.
8. 'Ymarfer Da Amgylcheddol ar y Safle'. CIRIA C502 1999. ISBN 0 86017 502 2
9. PPG21: Cynllunio Ymateb i Ddigwyddiad o Lygredd.
10. PPG 6: Gweithio mewn Safleoedd Adeiladu a Dymchwel.
11. Nodiadau canllaw ar gyfer Rheoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Lloegr) 2001 – yng ngwefan Defra ac mewn print.
12. Nodiadau canllaw ar gyfer Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Storio Olew) (Yr Alban) 2006 – Llywodraeth yr Alban – yng ngwefan Llywodraeth yr Alban ac mewn print.
13. PPG2: Tanciau Storio Olew Uwchben y Ddaear.
14. PPG26: Storio a Thrafod Drymiau a Swmp-Gynhwyswyr Canolraddol.
15. Mae'n Talu i Atal Llygredd. Rhoi Trefn ar eich Safle – Atal Llygredd Diwydiannol a Masnachol. – yng ngwefan Asiantaeth yr Amgylchedd.
16. PPG 13: Golchi a Glanhau Cerbydau.
17. Rheolaeth Gwastraff, Dyletswydd o Ofal, Côd Arfer (Adolygydd 1996). Y Llyfrfa. ISBN 0 – 11- 753210X.
18. Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Lloegr a Chymru) 2005, Offeryn Statudol 2005 Rhif 894. ISBN 0 110726 855
Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Gogledd Iwerddon) 2005, SR 300. ISBN 0 33796 064X
Rheoliadau Gwastraff Arbennig 1996, SI972. ISBN 0 11 054565 6
Rheoliadau Diwygiad Gwastraff Arbennig (Yr Alban) 2004, SSI 112. ISBN 0 11069 0303
19. Y Ganllaw Amgylcheddol Fach ar gyfer Gweithwyr Adeiladu. SEPA a CIRIA 2006 – yng ngwefan SEPA ac mewn fersiwn bapur ar gael gan SEPA.

Gwefannau

Asiantaeth yr Amgylchedd: www.environment-agency.gov.uk

Gwasanaeth yr Amgylchedd a Threftadaeth Gogledd Iwerddon: www.ehsni.gov.uk

Asiantaeth Gwarchod Amgylchedd yr Alban: www.sepa.org.uk

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: www.defra.gov.uk

Cymunedau a Llywodraeth Leol (Lloegr a Chymru): <http://www.communities.gov.uk/>

Llywodraeth yr Alban: <http://www.scotland.gov.uk/>

Envirowise: HYPERLINK “<http://www.envirowise.gov.uk>” www.envirowise.gov.uk

NetRegs: HYPERLINK <http://www.netregs.gov.uk> www.netregs.gov.uk

Cymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu : www.ciria.org.uk

Ein manylion cyswllt:

Asiantaeth yr Amgylchedd
www.environment-agency.gov.uk

PENCADLYS
Rio House
Waterside Drive
Aztec West
Almondsbury
Bryste BS32 4UD.
Ffôn: 01454 634 400
Ffacs: 01454 624 409

Asiantaeth Gwarchod Amgylchedd yr Alban
www.sepa.org.uk

SWYDDFA GORFFORAETHOL
Erskine Court
Castle Business Park
Stirling FK9 4TR
Ffôn: 01786 457 700
Ffacs: 01786 446 885

Gwasanaeth yr Amgylchedd a Threftadaeth
www.ehsni.gov.uk

PENCADLYS
17 Antrim Road
LISBURN
Co Antrim
BT28 3AL
Ffôn: 028 9262 3100
Ffacs: 028 9267 6054

Yn Lloegr a Chymru cysylltwch â'ch tîm Rheoli Datblygiad Lleol trwy'r Ganolfan Genedlaethol Cysylltiadau Cwsmeriaid (NCCC) ar 08708 506 506 neu yn enquires@environment-agency.gov.uk am fanylion ynghylch unrhyw un o'r pynciau a drafodir yn y ddogfen hon.



Yr amgylchedd yn gyntaf: Argreffir yr adroddiad hwn ar bapur wedi ei wneud yn gyfan gwbl o wastraff a ddefnyddiwyd eisoes. Defnyddir isgynhyrchion gwneud y mwydion a'r papur ar gyfer compostio a gwrtaith, gwneud sment a chynhyrchu trydan.